Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol y Gorlan

**Tremadog**
**Porthmadog**
**Gwynedd**
**LL49 9RN**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol y Gorlan

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol y Gorlan |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer o ddisgyblion ar y gofrestr | 113 |
| Nifer o ddisgyblion o oedran ysgol statudol | 84 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yn berthnasol) | 14 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%) | 10.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%) | 16.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 73.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/04/2014 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 13/05/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolydiad | 30/01/2023 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae’r term ‘anghenion addysg arbennig’ yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol y Gorlan yn gymuned hapus, ofalgar a chartrefol. Un o nodweddion mwyaf effeithiol yr ysgol yw bod staff yn cefnogi lles emosiynol ac yn darparu addysg gyflawn ar gyfer pob disgybl yn llwyddiannus. Maent yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu naws gyfeillgar a chynhwysol ble mae disgyblion yn ymddwyn yn gwrtais ac yn barchus. Mae bron bob disgybl yn dangos gofal tuag at eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agwedd gadarnhaol at ddysgu ac maent yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn.

Mae gan ran fwyaf o ddisgyblion lais ym mywyd yr ysgol ac maent yn cydweithio'n effeithiol â'i gilydd ac oedolion wrth gynllunio profiadau dysgu cyfoethog. Maent yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod gwersi a gweithgareddau sy'n eu hysbrydoli i wneud eu gorau. Er hyn, nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd estynedig wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu eu medrau digidol a chreadigol yn dda, ac mae disgyblion hŷn yn datblygu dealltwriaeth gadarn o ddiwylliant, hanes a daearyddiaeth eu cynefin.

Mae gweledigaeth greadigol yr ysgol ar gyfer datblygu'r cwricwlwm a'r pwyslais cadarn ar werthoedd cytûn yn cefnogi athrawon a staff i ddarparu ystod gyfoethog o brofiadau dysgu diddorol. Mae hyn yn ennyn a chynnal brwdfrydedd, a diwallu anghenion disgyblion yn llwyddiannus. Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer defnydd o'r iaith Gymraeg yn gryfder amlwg. Fodd bynnag, nid yw adborth athrawon bob amser yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio ar eu gwaith a gwneud gwelliannau fwyfwy heriol am eu dysgu.

Mae'r pennaeth ac arweinwyr yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer darparu addysg gyflawn wedi ei seilio ar gynnal lles y disgyblion a chydweithio tuag at y dyfodol. Maent yn canolbwyntio'n dda ar sicrhau bod pob un o'r staff yn teimlo eu bod yn rhan o dîm yr ysgol. Mae hyn yn sicrhau bod pawb yn deall blaenoriaethau'r ysgol ac yn gweithio gyda'i gilydd yn gefnogol. Er hyn, nid yw trefniadau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella'r ysgol yn ddigon effeithiol i adnabod eu cryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae'r rhan fwyaf o lywodraethwyr yn gweithio'n dda gydag arweinwyr i gefnogi'r staff a'r pennaeth ar drefniadau o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, nid yw aelodau'r corff llywodraethol yn rhan o gynllunio strategol yr ysgol yn ddigon effeithiol er mwyn ysgogi'r newidiadau sydd eu hangen.

## Argymhellion

A1 Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm.

A2 Darparu adborth penodol er mwyn i ddisgyblion ymestyn eu gwaith hyd eithaf eu gallu.

A3 Sicrhau trefniadau hunanwerthuso a chynllunio er mwyn i'r ysgol adnabod eu cryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella.

A4 Sicrhau bod y llywodraethwyr yn rhan o gynllunio strategol yr ysgol er mwyn ysgogi'r newidiadau sydd eu hangen.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae llawer o ddisgyblion yn cychwyn yn y dosbarth meithrin â medrau sydd ar y lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran. Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn. Mae'r disgyblion sydd wedi eu hadnabod fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai sy'n fregus yn dyfalbarhau'n hyderus ac yn datblygu hyder cynyddol â'u gweithgareddau dysgu.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar ei gilydd ac oedolion. Mae medrau llafar y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gryf iawn ar draws yr ysgol. Erbyn Blwyddyn 1, mae'r rhan fwyaf yn sgwrsio'n hyderus yn y Gymraeg, er enghraifft wrth chwarae rôl yn y siop anifeiliaid anwes. Defnyddiant eirfa aeddfed wrth drafod hoff anifeiliaid anwes eu cyfoedion neu wrth chwarae rôl y milfeddyg. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau llafar yn effeithiol yn y ddwy iaith. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynegi barn yn glir gyda chywirdeb, er enghraifft wrth drin a thrafod effaith marchnata diodydd ynni ar blant a phobl ifanc. Mae bron pob un yn dangos balchder tuag at siarad eu hiaith Gymraeg naturiol.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n briodol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion meithrin a derbyn yn adnabod ac enwi ystod o seiniau ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddechrau darllen geiriau syml, er enghraifft wrth drafod stori'r Dyn Bach Toes. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, maent yn adeiladu ar y cynnydd hwn ac yn datblygu ystod dda o dechnegau i ddod yn ddarllenwyr cadarn. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn darllen ystod o destunau priodol yn y ddwy iaith ac yn cymhwyso'u medrau darllen gan gynnwys testunau digidol yn effeithiol. Er enghraifft, wrth ddarllen a deall gwybodaeth am chwaraewyr pêl droed yn ystod Cwpan y Byd i greu ffeil ffeithiau amdanynt.

Mae medrau ysgrifennu llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae disgyblion y dosbarthiadau meithrin a derbyn yn dechrau ymarfer eu medrau ysgrifennu cynnar trwy wneud marciau mewn gwahanol gyfryngau a thrwy ddechrau ysgrifennu llythrennau unigol a geiriau syml i gyfleu ystyr. Erbyn Blwyddyn 1,mae llawer yn defnyddio ansoddeiriau a chymariaethau'n gynyddol gywir, er enghraifft wrth ddisgrifio nodweddion jiráff. Ar frig yr ysgol, mae llawer yn datblygu eu medrau'n addas gan ddechrau amrywio geirfa a phatrymau brawddeg wrth ysgrifennu. Maent yn datblygu eu gwybodaeth berthnasol am y defnydd cywir o'r Gymraeg wrth ddilyn strwythur cyson mewn gweithgareddau rheolaidd. Maent yn defnyddio'r wybodaeth mewn ystod o ffurfiau ysgrifennu priodol, er enghraifft wrth iddynt ddefnyddio geirfa ymestynnol wrth gyflwyno dadl o blaid ac yn erbyn rhyddhau balŵns i ddathlu agoriad archfarchnad.

O oedran cynnar, mae medrau mathemateg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn. Mae'r disgyblion ieuengaf yn caffael medrau sylfaenol mathemateg yn briodol, er enghraifft trwy adnabod amrywiaeth o siapiau cyfarwydd a chyfri gwrthrychau hyd at 10. Erbyn Blwyddyn 1, mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth drylwyr o nodweddion mathemategol ac yn eu defnyddio'n hyderus yn eu profiadau dysgu a chwarae, er enghraifft trwy fesur hyd malwoden Affricanaidd gan ddefnyddio unedau safonol. Mae lleiafrif o ddisgyblion ynghanol yr ysgol yn adeiladu ar eu

medrau rhifedd yn gynyddol hyderus yn eu gwersi mathemateg ac, ar adegau, i gefnogi eu dysgu ar draws y cwricwlwm. Mae mwyafrif o ddisgyblion ar frig yr ysgol yn dangos dealltwriaeth gadarn o dermau mathemateg. Mae ganddynt ddealltwriaeth addas o nodweddion mathemategol, gan gynnwys gweithdrefnau adio, tynnu, lluosi a rhannu. Maent yn casglu, cyflwyno a dehongli gwybodaeth yn ddeallus ar ffurf graffiau llinell, tablau, a thaenlenni. At ei gilydd, nid yw mwyafrif o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd digon cyson wrth ddatblygu eu medrau rhifedd ar draws y meysydd dysgu.

Mae medrau corfforol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae'r disgyblion ieuengaf yn ymarfer eu medrau'n gyson drwy wneud defnydd da o'r offer adeiladu, neu ddefnyddio'r beiciau cydbwyso yn fedrus. Mae disgyblion yng nghanol ac ar frig yr ysgol yn datblygu medrau corfforol buddiol iawn. Er enghraifft, maent yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o wersi sydd yn hybu eu hiechyd a'u lles, fel sesiynau ioga a rygbi a chymryd rhan mewn gwersi nofio a chwarae gemau tîm yr Urdd.

Ar draws yr ysgol, mae medrau creadigol llawer o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn, gyda phrofiadau gwerthfawr iddynt greu gwaith celf a cherddoriaeth, yn ogystal â pherfformio i wahanol gynulleidfaoedd.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Maent yn cyfuno eu medrau a'u dealltwriaeth o wahanol apiau a rhaglenni cyfrifiadurol yn gynyddol hyderus i gyfoethogi eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y dosbarth derbyn yn rhoi cyfres o gyfarwyddiadau cywir i degan digidol ac, erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio llechen ddigidol yn hyderus i gofnodi eu gwaith ac i ddatblygu eu medrau llafar. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn mewngofnodi'n hyderus i'w cyfrif digidol personol ac yn defnyddio amrywiaeth o raglenni addas I gywain a chyflwyno gwybodaeth, er enghraifft wrth adrodd hanes Owain Glyndŵr. Erbyn cyrraedd brig yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud defnydd creadigol o ystod o raglenni digidol, er enghraifft wrth ddefnyddio sgrin werdd i greu a chyflwyno fideo i ailadrodd rhan o stori ffuglen Saesneg. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu eu medrau llafar yn y ddwy iaith.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae bron bob disgybl yn dangos balchder amlwg a pharch tuag at eu hysgol. Maent yn groesawgar iawn ac yn hynod gwrtais tuag at eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr. Maent yn gwerthfawrogi'r gofal, y profiadau a'r addysg maent yn eu cael o fewn amgylchedd ddysgu gynhwysol a theuluol.

Mae ymddygiad bron bob disgybl yn dda iawn tu fewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth ac maent yn ofalgar o'i gilydd wrth gydweithio a chyd-chwarae'n hapus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarn at ddysgu. Maent yn ddysgwyr brwdfrydig sy'n ymgymryd â thasgau'r dosbarth yn frwd gan roi cynnig ar dasgau'n annibynnol, yn deall ei fod yn iawn i wneud camgymeriadau a'i fod yn rhan bwysig o'r broses ddysgu. Maent yn cydweithio â'u cyfoedion mewn parau neu grwpiau i ddatrys problemau heb gefnogaeth staff, er enghraifft wrth ofyn am gymorth eu cymheiriaid cyn athrawon. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos diddordeb yn eu gwaith ac yn barod i ddyfalbarhau er mwyn llwyddo. Trwy hyn, maent yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig yn llwyddiannus gan drafod eu gwaith yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn ymgymryd â'r

gweithgareddau yn yr ardaloedd dysgu a chwarae yn annibynnol ac yn barod i wrando ar farn a syniadau eraill yn ystyrlon. Er enghraifft, wrth drin a thrafod yn eu hardaloedd, maent yn cymharu dwy fersiwn wahanol o'r gân Dwylo Dros y Môr.

Mae bron bob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn hyderus bod staff yn ymateb ar unwaith i unrhyw bryderon sydd ganddynt. Mae'r disgyblion yn hapus i drafod unrhyw bryderon gydag aelodau staff, ac yn hyderus i wrando arnynt. Trwy ddefnydd Den Digidol y dosbarthiadau, mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o sut i gadw'n ddiogel ar lein. O ganlyniad i ymgyrch bwyta'n iach y cyngor ysgol, mae gan bron bob disgybl ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Maent yn ymfalchïo yn y cyfleoedd maent yn eu cael i wella eu ffitrwydd o fewn y gwersi addysg gorfforol a gweithgareddau cadw'n heini. Er enghraifft, mae'r disgyblion ar draws yr ysgol yn cymryd rhan mewn sesiynau ffitrwydd buddiol gan ddefnyddio'r 'trac', sef llwybr a grëwyd yn fwriadol o gwmpas yr ysgol i hybu medrau corfforol.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cynnig syniadau i'w cynnwys yn eu themâu, ac yn cyd-gynllunio gweithgareddau dysgu pwrpasol gyda'u hathrawon. Maent yn gwerthfawrogi bod athrawon yn gwrando ar eu barn yn y dosbarthiadau ac yn cynnwys eu syniadau wrth gynllunio. O ganlyniad, maent yn dangos diddordeb a brwdfrydedd ac yn dyfalbarhau wrth ddilyn gwahanol drywyddion dysgu.

Trwy eu hymwybyddiaeth o'r gwerthoedd sy'n cael eu hyrwyddo gan yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd dinasyddiaeth foesol a Chymreig. Mae bron bob disgybl yn deall pwysigrwydd cefnogi pobl eraill mewn cymdeithas ac maent yn awyddus i godi arian tuag at elusennau lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, maent wedi codi arian ar gyfer Ambiwlans Awyr Cymru ac i blant tlotaf Dwyrain Ewrop.

Mae aelodau'r cyngor ysgol yn falch o'u rolau ac yn cymryd eu dyletswyddau o ddifri. Maent yn cynllunio'n ddiwyd i wella'r ysgol ac yn sicrhau bod ganddynt lais amlwg. Er enghraifft, mae'r cyngor ysgol wedi herio'r awdurdod lleol er mwyn ailgyflwyno dewisiadau'r disgyblion i'r fwydlen ginio. Maent hefyd wedi trefnu diwrnod cyfnewid dillad ail-law i deuluoedd yr ysgol. Mae hyn yn datblygu'r disgyblion i fod yn ddinasyddion moesol a gwybodus ac yn cynyddu eu hymwybyddiaeth am bwysigrwydd eu cyfraniadau i greu cymdeithas ofalgar.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Ar draws yr ysgol, mae'r profiadau dysgu yn hyrwyddo cyd-destunau dilys ac yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y cwricwlwm. Mae athrawon yn cydweithio'n dda â rhieni a disgyblion er mwyn cynllunio themâu difyr sy'n ysbrydoli a sicrhau ymroddiad bob disgybl.

Ar y cyfan, mae'r athrawon yn dechrau addasu eu cynllunio yn briodol i ystyried y pedwar diben a meysydd dysgu a phrofiad yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru. Mae egwyddorion ehangach y cwricwlwm yn datblygu'n briodol wrth feithrin disgyblion i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol, mentrus ac i ddyfalbarhau yn eu gweithgareddau. Mae athrawon yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer datblygu medrau meddwl, darllen, llafar, TGCh ac ysgrifennu disgyblion, ac o ganlyniad, maent yn eu defnyddio'n hyderus ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau rhifedd yn ddigon cyson ar draws y meysydd dysgu. O ganlyniad, mae hyn yn llesteirio gallu'r disgyblion i ddefnyddio eu medrau mathemateg at bwrpasau gwahanol.

Mae pob aelod o staff yn gweithio'n galed i feithrin perthynas gynhwysol a gweithgar gyda'r disgyblion. O ganlyniad, mae'r amgylchedd ddysgu yn gefnogol ac ysgogol sy'n datblygu brwdfrydedd disgyblion tuag at eu dysgu.

Tu mewn a thu allan, mae'r ardaloedd dysgu atyniadol yn cael eu defnyddio'n fwriadus i annog disgyblion i weithio'n gynhyrchiol a chyfoethogi'u profiad. Llwydda'r staff i wneud y dosbarthiadau'n  lleoedd ysgogol a difyr. Mae arddangosfeydd rhyngweithiol a lliwgar y dosbarthiadau a'r coridorau yn cefnogi'r dysgu'n bwrpasol. Ar draws yr ysgol, mae'r gwaith cynllunio ar gyfer ardaloedd penodol yn cynnig cyfleoedd i'r disgyblion  ddatblygu eu medrau a'u gwybodaeth yn effeithiol mewn cyd-destunau pwrpasol. Er enghraifft, mae cynefin y disgyblion yn cael sylw blaengar, fel astudiaethau Blwyddyn 5 a 6 ar hanes William Maddocks a sefydliad Tremadog ers talwm.

Mae gan bob aelod o staff berthynas waith hynod gadarnhaol â disgyblion. Maent yn cydweithio fel aelodau effeithiol o dîm ac yn darparu ystod eang o weithgareddau sy'n cefnogi disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau allweddol a'u medrau cymdeithasol. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn gofalu'n gydwybodol a theyrngar am eu disgyblion. Mae hyn yn atgyfnerthu'r ymdeimlad cryf gan y disgyblion fod yr ysgol yn lle hapus a theuluol. Mae gan athrawon a staff cymorth ddisgwyliadau uchel o ymddygiad. Mae'r staff cyfan yn cydweithio'n effeithiol ac yn cymell a rheoli ymddygiad disgyblion yn fedrus. Defnyddiant ganmoliaeth ac anogaeth yn briodol, ac mae hyn yn creu amgylchedd ddysgu weithgar.

Mae athrawon a chymorthyddion dysgu yn cynnig adborth a chymorth adeiladol i'r disgyblion er mwyn iddynt ddeall sut i wella eu gwaith, yn enwedig ar lafar. Mae athrawon yn rhannu bwriadau dysgu a meini prawf llwyddiant gyda disgyblion yn briodol. Mae'r cymorthyddion yn cefnogi'r dysgu yn llwyddiannus drwy arwain gweithgareddau gydag unigolion a grwpiau o blant. Ar y cyfan, mae asesiadau'r athrawon yn briodol, yn ddilys ac yn gywir. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio ar eu gwaith a gwneud gwelliannau yn dilyn adborth. O ganlyniad, nid yw disgyblion bob amser yn ymestyn eu gwaith hyd eithaf eu gallu.

Mae ethos Cymreig cryf yr ysgol, ynghyd â'r ddarpariaeth, yn hybu'r disgyblion i wneud defnydd pwrpasol o'r Gymraeg. O ganlyniad, maent yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog cymwys. Mae staff yn cydweithio'n frwdfrydig ac yn angerddol i drochi'r disgyblion yn yr iaith Gymraeg. Maent yn modelu iaith yn feistrolgar, yn dangos brwdfrydedd at yr iaith ac yn arddel disgwyliadau uchel ar gyfer safonau llafar disgyblion. Defnyddiant gân ac iaith arwyddo yn effeithiol iawn fel rhan allweddol o'u dulliau addysgu. Mae hyn yn galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud cynnydd da wrth gaffael yr iaith, a'i defnyddio mewn cyd-destunau gwahanol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae gan yr ysgol ethos teuluol gofalgar a chynhwysol, lle mae pawb yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn adnabod y disgyblion yn dda ac maent yn ymateb yn helaeth i'w hanghenion emosiynol a chymdeithasol.

Mae'r awyrgylch gadarnhaol ac agweddau positif y staff ar draws yr ysgol yn cefnogi disgyblion i feithrin naws gadarnhaol tuag at ddysgu ac yn datblygu eu medrau i weithio'n annibynnol yn fuddiol. Mae'r holl staff yn meithrin gwerthoedd cytûn fel

gofal, caredigrwydd, tegwch a pharch yn arbennig o dda. Caiff hyn ei amlygu yn agwedd ac ymddygiad cadarnhaol y disgyblion o amgylch yr ysgol. Mae gan yr ysgol ddiwylliant cryf o ddiogelu ac mae trefniadau i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

Mae'r ysgol yn creu ac yn hyrwyddo cysylltiadau cryf â'r gymuned, sy'n cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn gadarn. Er enghraifft, wrth ymweld â Chastell Harlech a Phentref Maentwrog, mae'r disgyblion yn dysgu am chwedl Twrog y Cawr ac am hanes y teulu Oakley. Mae'r ysgol hefyd yn defnyddio eu cymuned fel adnodd addysgol trwy astudiaethau amgylcheddol ar draeth Cricieth. O ganlyniad, mae disgyblion yn ymfalchïo yn nhraddodiadau'r ardal a'u Cymreictod ac yn datblygu eu hymwybyddiaeth o gynaliadwyedd.

Mae'r staff yn cefnogi disgyblion i fireinio eu medrau creadigol wrth ymgysylltu â'r celfyddydau mynegiannol yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn trefnu cyfleoedd priodol i ddisgyblion ar draws yr ysgol gymryd rhan mewn gweithgareddau cadw'n heini, er enghraifft yng nghlwb chwaraeon yr Urdd er mwyn datblygu eu medrau corfforol. Mae sesiynau ffitrwydd wythnosol a hyfforddiant rygbi gan asiantaethau allanol yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion yn llwyddiannus. Trwy gyfleoedd creadigol cyson yr ysgol, perfformiadau Eisteddfodau a chyfle i ddisgyblion ganu yn y gymuned, mae staff yn cefnogi disgyblion i fagu hyder i gymryd rhan mewn amrywiaeth ddiddorol o weithgareddau.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn hyderus am arferion bwyta'n iach ac yn deall pwysigrwydd diet cytbwys.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd buddiol i ddatblygu dealltwriaeth foesol ac ysbrydol disgyblion yn ystod gwasanaethau dosbarth a gweithgareddau ystafell ddosbarth. Mae'r staff yn annog disgyblion i fyfyrio ar werthoedd fel cyfeillgarwch, gwerthfawrogiad a charedigrwydd ac i ystyried safbwyntiau eraill yn sensitif, er enghraifft wrth drafod nodweddion ffrind da. Mae staff yn annog disgyblion i ystyried barn pobl eraill yn sensitif a chydnabod a pharchu cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a phwysigrwydd gwerthoedd fel goddefgarwch. Er enghraifft, wrth astudio hanes Rosa Parks, mae disgyblion ym Mlwyddyn 4 a 5 wedi dysgu am annhegwch ac anghyfiawnder tuag at bobl eraill.

Mae staff yn cefnogi anghenion emosiynol a chymdeithasol disgyblion yn effeithiol. Maent yn cynnig cefnogaeth gadarn ar gyfer cynorthwyo anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol disgyblion. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les a brwdfrydedd y disgyblion at ddysgu ac yn cael ei hadlewyrchu yn eu hymddygiad. Mae gan yr ysgol ddarpariaeth effeithiol i gefnogi iechyd a lles emosiynol sydd wedi'u teilwra'n agos at anghenion penodol disgyblion. Er enghraifft, mae staff wedi cael hyfforddiant buddiol sy'n cynnig cyfleoedd gwerthchweil i ddisgyblion ar draws yr ysgol ddysgu am sut i gryfhau eu hunan-barch a datblygu eu medrau moesol, cymdeithasol a diwylliannol.

Mae'r ysgol yn dilyn systemau gwerthfawr i gasglu gwybodaeth am gynnydd a chyflawniadau disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn cynnwys asesiadau crynodol a chofnodion anffurfiol, sy'n plethu i greu darlun cynhwysfawr am yr unigolyn. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi datblygu system olrhain cynnydd ysgol gyfan er mwyn tracio cynnydd medrau rhif a llythrennedd disgyblion o'u mannau cychwyn. Mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth yn briodol i adnabod anghenion

disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar ac yn darparu ymyrraeth mewn modd sensitif ac addas. Mae’r ysgol wedi dechrau ymateb yn briodol i’r diwygiadau yn y ddeddf anghenion dysgu ychwanegol. Mae staff yn creu cynlluniau addysg unigol addas ac yn adolygu’r cynlluniau hyn yn rheolaidd gyda chydweithrediad rhieni. Mae’r staff yn cydweithio’n effeithiol â nifer o asiantaethau arbenigol fel therapyddion iaith a’r seicolegwyr addysg. O ganlyniad, mae hyn yn darparu cymorth ac arweiniad gwerthfawr i ddisgyblion, gan gynnwys cydweithio â’r brifysgol gyfagos mewn prosiect ymchwil i ddatblygu adnodd i godi safonau llythrennedd.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae’r pennaeth wedi creu amgylchedd ofalgar a chynhwysol sy’n sicrhau ymdeimlad cryf o waith tîm ymhlith y staff ac ymrwymiad cynnes at les disgyblion. Mae’r amgylchedd ofalgar hon yn adlewyrchu gweledigaeth yr ysgol sef, ‘Bwydo’r galon i fwydo’r dysgu’, yn llwyddiannus iawn. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddangos lefelau uchel o ymgysylltiad.

Mae’r arweinwyr yn annog ymddygiad a gwerthoedd buddiol, sy’n cefnogi disgyblion yn llwyddiannus yn eu bywyd a’u gwaith o fewn a thu allan i’r ysgol. Mae’r pennaeth a’r staff yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn cydweithio’n llwyddiannus i ddatblygu tîm effeithiol o athrawon a staff cymorth. Caiff hyn ei adlewyrchu’n llwyddiannus gan agweddau cadarnhaol y rhan fwyaf o’r disgyblion at fywyd a gwaith yr ysgol. Mae bron bob un yn ymddwyn yn dda ac yn arddangos parch ac aeddfedrwydd wrth ryngweithio â chyfoedion, staff ac ymwelwyr.

Mae’r pennaeth wedi adnabod blaenoriaethau cyfredol yr ysgol, fel cefnogi staff i baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, yn ogystal â datblygu rhaglen drawsnewid anghenion dysgu ychwanegol. Yn ogystal, mae’r staff wedi cydweithio ag ysgolion eraill y dalgylch i ehangu eu defnydd o adnoddau digidol yn fwy effeithiol. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu medrau digidol y disgyblion. O ganlyniad, mae’r staff yn teimlo’n hyderus y cânt gefnogaeth y pennaeth wrth dreialu strategaethau a dulliau newydd o addysgu a chodi safonau.

Mae gan yr ysgol drefniadau addas i fonitro perfformiad staff. Mae’r broses hon yn arwain at adnabod cryfderau addysgu a’r agweddau hynny sydd angen eu cryfhau. O ganlyniad, mae’r staff yn cael eu hannog i fynychu hyfforddiant proffesiynol ac yn elwa o’r hyn maent yn ei ddysgu. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu hyder staff i dreialu’n fedrus i ehangu eu strategaethau addysgu a natur eu cefnogaeth. Fodd bynnag, mae’r prosesau a’r strategaethau gwelliant yn anffurfiol ac nid yw’r drefn o fonitro a gwerthuso yn arwain at osod blaenoriaethau digon priodol i’r ysgol. O ganlyniad, nid yw’r cynllunio strategol yn ddigon penodol na miniog. Er enghraifft, er mwyn adnabod yr angen i godi safonau medrau rhifedd disgyblion.

Mae aelodau’r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i’r ysgol ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau’n gydwybodol. Wrth dderbyn adroddiadau gan y pennaeth, mae ganddynt ddealltwriaeth gyson o drefniadau dyddiol yr ysgol. Er enghraifft, maent wedi gwerthuso safle’r ysgol er mwyn cadw’r dysgwyr yn ddiogel. Mae’r corff llywodraethol hefyd yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Er hyn, nid ydynt yn herio arweinwyr yn ddigonol i gaffael gwybodaeth am gryfderau a meysydd i’w gwella sy’n ymwneud â’r dysgu ac

addysgu. Nid oes ganddynt ddealltwriaeth ddigon cadarn o gynnydd a safonau'r disgyblion.

Mae yna drefniadau da ac eang i hyrwyddo datblygiad proffesiynol y staff, er enghraifft wrth ehangu sgiliau'r cymorthyddion i gefnogi disgyblion sydd angen sylw pellach mewn agweddau fel llythrennedd a datblygiad emosiynol. O ganlyniad, mae’r disgyblion hyn yn dangos gwelliant parhaus dros amser yn eu medrau sylfaenol a chymdeithasol. Mae’r ysgol yn cadw cysylltiad agos â’r rhieni ac maent yn gwerthfawrogi’r gofal a’r arweiniad mae eu plant yn eu derbyn. Mae’r rhieni’n  teimlo bod yr ysgol wedi llwyddo i greu amgylchedd ofalgar a theg sy’n esgor ar amgylchedd ddysgu lwyddiannus.

Mae gan yr ysgol gynllun gwariant synhwyrol sy’n sicrhau bod ganddynt ddigon o adnoddau i ddiwallu anghenion disgyblion yn bwrpasol. Mae’r arweinwyr yn monitro’r gyllideb yn ofalus ac yn sicrhau bod yna wariant teg i gyd-fynd ag anghenion pwysig. Maent yn gwneud defnydd da o grantiau gwahanol sydd wedi eu dyrannu i’r ysgol, er enghraifft wrth ddefnyddio’r grant datblygu disgyblion i ddarparu rhaglenni cymorth i ddisgyblion sydd angen cymorth pellach â’u dysgu.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 03/04/2023